

Gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Adolygiad Themataidd Cenedlaethol o Wasanaethau Mabwysiadu.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gallwch ofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Gall geiriau mewn **glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth maen nhw'n ei olygu ar **dudalen 35**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Arolygiaeth Gofal Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

E-bost: AGC@llyw.cymru

Ffôn: 0300 7900 126



Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. [Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.](#)

Am yr adroddiad yma..... 4

Sut rydyn ni wedi gwneud y gwaith yma 7

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod 8

1. Llesiant..... 8

2. Gofal a chymorth 16

3. Arweinyddiaeth a rheolaeth..... 28

Beth sy'n digwydd nesaf 34

Geiriau anodd 35

Am yr adroddiad yma



Arolygiaeth Gofal Cymru ydyn ni. Rydyn ni'n edrych ar wasanaethau gofal yng Nghymru.



Adolygwyd gwasanaethau mabwysiadu ym mhob rhan o Gymru.



Mae gwasanaethau mabwysiadu yn helpu plant sydd ddim yn gallu byw gyda'u teuluoedd geni. Maen nhw'n helpu plant i ddod o hyd i gartrefi diogel hirhoedlog.

Sefydliadau sy'n ymwneud â mabwysiadu



Mae llawer o sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn dod â'r sefydliadau yma at ei gilydd.



Maen nhw'n cynnwys:

- Cydweithrediadau Mabwysiadu Rhanbarthol
- Cyngorau lleol
- Gwasanaethau iechyd
- Gwasanaethau addysg
- Asiantaethau gwirfoddol
- Tîm canolog cenedlaethol

Beth ydy'r adroddiad yma



Dyma ein hadolygiad o wasanaethau mabwysiadu ar draws Cymru.



Fe wnaethon ni edrych ar beth sy'n gweithio'n dda.




Fe wnaethon ni hefyd edrych ar beth sydd angen gwella.



Fe wnaethon ni edrych ar 3 prif thema:

1. Llesiant.
2. Gofal a chefnogaeth.
3. Arweinyddiaeth a rheolaeth.



Mae'r adroddiad yma yn dweud wrthy ch chi beth rydyn ni wedi ei ddarganfod.

Sut rydyn ni wedi gwneud y gwaith yma



Fe wnaethon ni y gwaith yma rhwng Ebrill a Rhagfyr 2025.



Fe wnaeth pob un o'r 5 Cydweithrediad Mabwysiadu Rhanbarthol yng Nghymru gymryd rhan.



Fe wnaeth staff a sefydliadau lenwi arolygon. Fe wnaethon ni gyfweiliadau a grwpiau ffocws.



Fe wnaethon ni wyllo paneli mabwysiadu a grwpiau cymorth.



Fe wnaethon ni edrych ar gofnodion gofal cymdeithasol a chofnodion mabwysiadu. Fe wnaethon ni edrych ar 21 o achosion plant ac 83 o gofnodion mabwysiadu.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

1. Llesiant

Darparu gwybodaeth am fabwysiadu



Mae gwasanaethau mabwysiadu yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth yn gynnar.



Mae yna wefannau sy'n dweud sut mae'r broses fabwysiadu yn gweithio.



Mae gan rai lleoedd offer ar-lein. Mae'r offer yma yn helpu pobl i wybod mwy am fabwysiadu a beth i'w wneud nesaf.



Mae cymorth ar-lein yn wahanol ar draws Cymru.



Fe ddylai gwasanaethau wella eu gwybodaeth ar wefannau ac ar-lein.

Rhoi plant yn gyntaf



Mae gwasanaethau yn gweithio i roi anghenion plant yn gyntaf a pharchu hawliau plant.




Mae staff yn gwrando ar blant pryd bynnag maen nhw'n gallu. Maen nhw'n helpu i wneud yn siŵr bod barn plant yn cael eu clywed.

Gwybodaeth am gymorth



Mae gwybodaeth am gymorth yn wahanol ar draws Cymru. Mae rhai manylion am gymorth mabwysiadu ar goll neu ddim yn glir.



Mae rhai dogfennau yn hen neu ar goll.



Fe ddylai gwasanaethau gynnig gwybodaeth gliriach am gymorth mabwysiadu.

Cadw plant yn ddiogel



Mae staff ar draws Cymru yn gweithio i gadw plant yn ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n defnyddio **ymarfer ystyriol o drawma**.

Mae **ymarfer ystyriol o drawma** yn meddwl gwybod bod plant efallai wedi cael profiadau anodd. Ac yn eu helpu mewn ffordd ddiogel, garedig a pharchus.



Mae staff yn meddwl yn ofalus am:

- Profiadau plant yn y gorffennol.
- Hunaniaeth plant - Mae hyn yn meddwl pwy ydy person a sut maen nhw'n gweld eu hunain.
- Teimladau.
- Anghenion.



Mae staff yn cael cyfarfodydd am **ddiogelu**.

Mae **ddiogelu** yn meddwl cadw plant yn ddiogel a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae staff yn ymateb yn gyflym pan fydd pryderon yn cael eu codi.



Ond mae cofnodion **diogelu** yn wahanol ar draws Cymru. Dydy pob gwaith **diogelu** ddim wedi'i ysgrifennu i lawr yn glir.



Dydy **ymweliadau dirybudd** ddim bob amser yn cael eu cofnodi.

Ymweliad dirybudd ydy pan fydd gweithiwr yn ymweld heb ddweud wrth bobl ymlaen llaw. Mae'n helpu staff i weld sut mae plentyn yn gwneud.

Sefydlogrwydd Cynnar Cymru



Mae Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn ffordd o helpu plant i gael cartref sefydlog cyn gynted â phosibl.



Mae'n rhoi plant yn gyflym gyda rhieni sydd hefyd yn **ofalwyr maeth**.

Mae **gofalwr maeth** yn oedolyn sy'n gofalu am blentyn i'r cyngor lleol.



Mae hyn yn helpu i leihau faint o weithiau mae plant yn symud cartrefi. Mae llai o symudiadau yn gallu helpu llesiant plant.



Dydy Sefydlogrwydd Cynnar Cymru ddim yn cael ei ddefnyddio ar draws Cymru.



Fe ddylai gwasanaethau ddefnyddio Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn fwy i helpu plant.

Hunaniaeth, diwylliant a'r Gymraeg



Mae gwasanaethau yn gweithio i gefnogi hunaniaeth ac anghenion plant.



Mae gwasanaethau yn ceisio paru plant â theuluoedd sy'n cefnogi:

- Eu diwylliant
- Eu hiaith
- Eu crefydd



Mae plant yn cael eu paru â theuluoedd sy'n rhannu eu cefndir pan mae'n bosibl.



Mae gwasanaethau'n darparu cymorth Cymraeg pan mae angen. Mae dehonglwyr yn cael eu defnyddio pan fydd angen help.

2. Gofal a chymorth

Gwirio pobl sydd eisiau mabwysiadu




Mae gwasanaethau yn cwblhau'r holl wiriadau cyfreithiol sydd eu hangen.



Mae staff yn defnyddio canllawiau cenedlaethol a ffyrdd o weithio sydd wedi cael eu cytuno. Mae hyn yn helpu i wneud gwiriadau teg.



Mae staff yn gweithio i wybod beth ydy anghenion plant. Maen nhw'n meddwl am brofiadau plant yn y gorffennol. Maen nhw hefyd yn meddwl am anghenion cymorth yn y dyfodol.



Mae plant yn cael eu paru â rhieni sy'n gallu rhoi cartref diogel iddyn nhw.

Cynllunio i blant symud i'w teulu newydd



Mae staff yn helpu plant i symud i'r teuluoedd sy'n eu mabwysiadu. Mae'r symudiad fel arfer wedi'i gynllunio'n ofalus.



Mae'r staff yn canolbwyntio ar deimladau a llesiant plant. Maen nhw'n gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol plant.

Llinellau amser anogaeth ystyriol o drawma



Mae rhai gwasanaethau yn defnyddio offeryn o'r enw **Llinellau amser anogaeth ystyriol o drawma**. Mae hyn yn helpu staff i wybod mwy am hanes bywyd plentyn.



Mae hefyd yn eu helpu i gynllunio'r gefnogaeth gywir i'r plentyn.

Dysgu am anghenion plant



Mae staff yn helpu plant a'u teuluoedd newydd i ddod i adnabod ei gilydd.



Maen nhw'n gwneud hyn cyn i'r plentyn symud i'w gartref newydd.

Oedi mewn symud plant i'w teulu newydd



Mae rhai plant yn symud yn gyflym i deuluoedd newydd. Mae plant eraill yn aros yn llawer hirach.



Mae oedi yn gallu digwydd ar ôl gwneud penderfyniadau mabwysiadu. Mae aros hir yn gallu effeithio ar lesiant plant.



Fe ddylai gwasanaethau wneud yn siŵr bod plant yn symud i'w teulu parhaol cyn gynted â phosibl.

Cymorth mabwysiadu a chysylltu â theuluoedd geni



Mae cymorth mabwysiadu yn gymorth i blant mabwysiedig, teuluoedd newydd a theuluoedd geni.




Mae cefnogaeth yn gallu cynnwys:

- Help gyda theimladau a phrofiadau
- Cwrdd â theuluoedd eraill
- Helpu plant i wybod am eu gorffennol.



Mae rhai ardaloedd yn rhoi mwy o gefnogaeth nag eraill. Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd restrau aros am gefnogaeth.



Mae gan lawer o deuluoedd Gynllun Cymorth Mabwysiadu. Mae hyn yn dangos pa gefnogaeth mae plentyn a theulu ei angen.



Dydy rhai cynlluniau ddim yn cael eu diweddarau pan fydd anghenion yn newid. Fe ddylai gwasanaethau adolygu a diweddarau cynlluniau cymorth yn rheolaidd.



Mae staff hefyd yn helpu teuluoedd i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd geni. Mae hyn yn cael ei alw yn '**gyswllt blwch llythyrau**'.



Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd yn defnyddio llythyrau neu negeseuon i wneud hyn. Dydy hyn ddim bob amser yn cael ei adolygu i wneud yn siŵr ei fod yn dal i ateb anghenion plant.



Fe ddylai gwasanaethau wneud yn siŵr bod trefniadau cymorth a chyswllt yn cael eu gwirio a'u diweddarau'n rheolaidd.



Os ydych chi ar restr aros, fe ddylai'r gwasanaeth:

- Dweud wrthy ch chi pa mor hir fydd rhaid i chi aros.
- Gofyn a oes unrhyw beth wedi newid.
- Edrych ar eich cynllun cymorth yn rheolaidd. Ei ddiweddarau os bydd eich anghenion yn newid.

Edrych ar gynlluniau gofal a chymorth



Mae rhai Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gwneud gwiriadau cryf. Mae Swyddog Adolygu Annibynnol yn rhywun sy'n adolygu cynlluniau a chefnogaeth plant.



Maen nhw hefyd yn edrych ar bobl sydd eisiau mabwysiadu cyn **Gorchmynion Mabwysiadu**.



Mae **Gorchmynion Mabwysiadu** yn benderfyniad swyddogol sy'n gwneud rhieni sydd eisiau mabwysiadu yn rhieni cyfreithiol y plentyn.



Mae cael un adolygydd ar gyfer y broses gyfan yn ddefnyddiol. Mae hyn yn rhoi cefnogaeth gyson dros amser.

Gwaith Taith Bywyd



Mae Gwaith Taith Bywyd yn helpu plant i wybod am eu gorffennol. Er enghraifft, mae'n cynnwys Llyfr Stori Bywyd a Llythyr Bywyd Diweddarach.



Mae llythyrau bywyd diweddarach yn cael eu hysgrifennu gan weithiwr cymdeithasol i siarad am fywyd cynnar plentyn. Mae plant yn gallu eu darllen pan fyddan nhw'n hŷn i wybod am eu gorffennol.



Fe wnaethon ni ddod o hyd i enghreifftiau da o waith taith bywyd. Ond dydy llythyrau bywyd diweddarach ddim bob amser yn cael eu gwneud ar amser.



Fe ddylai gwasanaethau wella ansawdd ac amseriad gwaith taith bywyd.

Pan fydd mabwysiadu yn dod i ben yn gynnar



Dim ond nifer fach o fabwysiadu ddaeth i ben yn gynnar. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o blant yn aros gyda theuluoedd mabwysiadol.

Barn plant



Mae adroddiadau mabwysiadu plant yn ddogfennau sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer cynllunio mabwysiadu. Mae nhw'n aml yn cynnwys safbwyntiau a theimladau plant.



Dydy'r adroddiadau ddim yn cael eu gwneud yn yr un ffordd ar draws Cymru. Mae rhai adroddiadau yn dweud bod plant yn rhy ifanc i ddweud beth maen nhw'n feddwl.



Mae'r adroddiadau gorau yn dangos bod gan bob plentyn brofiadau a safbwyntiau. Mae staff yn gallu ychwanegu'r rhain trwy eu harsylwi a'u disgrifio.

Paneli mabwysiadu



Mae'r panel mabwysiadu yn grŵp o bobl sy'n edrych ar wybodaeth mabwysiadu. Maen nhw'n rhoi cyngor am beth ddylai ddigwydd nesaf. Mae'r paneli yn rheoli'r broses fabwysiadu ac yn adolygu achosion.



Mae yna benderfynwyr sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol ar fabwysiadu.



Mae'r penderfyniadau hyn fel arfer yn cael eu gwneud ar amser. Ar y cyfan maen nhw'n cael eu hesbonio'n dda. Ond nid yw cofnodion ysgrifenedig bob amser yn cynnwys digon o fanylion.

Cael pobl sydd eisiau mabwysiadu



Mae dod o hyd i bobl sydd eisiau mabwysiadu yn her fawr. Does dim digon o bobl yn mabwysiadu plant yng Nghymru.



Mae rhai plant yn aros yn hirach nag eraill. Mae hyn yn cynnwys:

- Brodyr a chwiorydd.
- Plant sydd angen help ychwanegol. Mae hyn yn gallu bod oherwydd anableddau.



Mae gwybodaeth i bobl sydd eisiau mabwysiadu yn wahanol ar draws Cymru.



Fe ddylai gwasanaethau roi gwybodaeth gliriach am y gefnogaeth i bobl sydd eisiau mabwysiadu.

3. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Arweinyddiaeth



Mae arweinyddiaeth yn meddwl arwain a rheoli gwasanaethau'n dda.



Mae staff yn dweud bod arweinwyr yn ddefnyddiol ac yn hawdd siarad â nhw. Mae llawer o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.



Mae arweinyddiaeth yn wahanol ar draws Cymru. Mae ardaloedd gyda Rheolwyr Mabwysiadu Rhanbarthol yn aml yn gweithio'n well. Roedd staff yn dweud eu bod yn helpu i roi gwybodaeth gliriach a phenderfyniadau gwell.



Fe ddylai pob maes gael arweinyddiaeth gref.



Mae tîm cenedlaethol yn helpu sefydliadau ar draws Cymru i weithio gyda'i gilydd. Maen nhw'n rhannu syniadau ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd.



Mae cydweithio yn gallu helpu i wella gwasanaethau mabwysiadu ar draws Cymru.

Byrddau Rheoli Rhanbarthol



Mae Byrddau Rheoli Rhanbarthol yn helpu i gynllunio a rheoli gwasanaethau. Maen nhw yn helpu i wneud yn siŵr bod staff, arian a chefnogaeth yn cael eu defnyddio'n dda.



Mae gan fyrddau cryf arweinwyr medrus o wahanol sefydliadau.



Mae rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dod â sefydliadau at ei gilydd yn dda. Maen nhw hefyd yn chwilio am ffyrdd o wella gwasanaethau.

Staff mabwysiadu



Mae staff mabwysiadu ar draws Cymru yn fedrus a phrofiadol. Maen nhw yn canolbwyntio ar anghenion plant.



Mae staff yn cael cefnogaeth gan reolwyr. Maen nhw hefyd yn cael hyfforddiant.



Mae'n helpu pan fydd yr un staff yn aros yn eu swyddi. Mae plant a theuluoedd yn gallu dod i'w hadnabod ac ymddiried ynddyn nhw.



Does gan rai gwasanaethau ddim digon o staff. Mae rhai swyddi yn dibynnu ar gyllid tymor byr.



Mae gan rai cyngorau lleol lawer o staff yn gadael a staff newydd yn ymuno. Mae'r newidiadau yma yn gallu effeithio ar blant a theuluoedd. Efallai y bydd mabwysiadu yn cael eu gohirio. Efallai y bydd yn rhaid i deuluoedd ailadrodd yr un wybodaeth sawl gwaith.

Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau



Mae gwasanaethau mabwysiadu yn darparu Datganiadau o Ddiben a chanllawiau gwybodaeth. Mae'r rhain yn esbonio:

- Sut mae gwasanaethau yn gweithio.
- Pa hawliau sydd gan bobl.
- Cefnogaeth sydd ar gael.



Mae rhai dogfennau'n hen neu ddim yn gyflawn. Mae gwybodaeth bwysig weithiau ar goll.



Fe ddylai gwasanaethau gadw dogfennau yn gywir ac yn ddiweddar.

Edrych i weld bod gwasanaethau yn dda



Mae ffyrdd o edrych ar wasanaethau yn wahanol ar draws Cymru.



Mae Cydweithrediadau Mabwysiadu Rhanbarthol yn defnyddio systemau adolygu gwahanol. Mae rhai systemau yn gweithio'n well nag eraill.



Fe ddylai gwasanaethau edrych ar eu gwaith, eu canlyniadau a'u cofnodion yn rheolaidd.



Mae rhai gwasanaethau yn casglu barn gan blant a theuluoedd yn rheolaidd. Maen nhw yn defnyddio'r wybodaeth yma i wella gwasanaethau a chynllunio.



Dydy hyn ddim yn digwydd ym mhobman. Fe ddylai gwasanaethau wneud gwell defnydd o adborth gan blant a theuluoedd.



Dydy'r rhan fwyaf o Gydweithrediadau Mabwysiadu Rhanbarthol ddim yn edrych ar wybodaeth **diogelu** yn rheolaidd. Mae cynghorau lleol yn aml yn cadw gwybodaeth **diogelu**. Mae angen gwirio cryfach.



Fe ddylai Cydweithrediadau Mabwysiadu Rhanbarthol gadw cofnod o bryderon diogelu yn yr un ffordd.

Beth sy'n digwydd nesaf



Fe fyddwn ni'n dilyn pob Cydweithrediad Mabwysiadu Rhanbarthol. Fe fyddwn ni'n edrych ar sut maen nhw'n gwella gwasanaethau.



Fe fyddwn ni'n edrych i weld beth maen nhw wedi ei wneud yn dilyn eu hadroddiadau arolygu eu hunain.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phobl sy'n ymwneud gyda gwasanaethau mabwysiadu ac yn defnyddio beth rydyn ni wedi ei ddarganfod o'r adroddiad yma i helpu i wella gwasanaethau ar draws Cymru.



Fe fydd pobl yn rhannu beth maen nhw'n ei feddwl, eu syniadau a'u dysgu o bob rhan o Gymru.



Fe fyddwn ni'n parhau i edrych os ydy gwasanaethau yn gwella trwy arolygiadau.

Geiriau anodd

Diogelu

Mae diogelu yn meddwl cadw plant yn ddiogel a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae staff yn ymateb yn gyflym pan fydd pryderon yn cael eu codi.

Gorchymyn Mabwysiadu

Mae Gorchymyn Mabwysiadu yn benderfyniad swyddogol sy'n gwneud rhieni sydd eisiau mabwysiadu yn rhieni cyfreithiol y plentyn.

Gofalwr maeth

Mae gofalwr maeth yn oedolyn sy'n gofalu am blentyn i'r cyngor lleol.

Ymarfer ystyriol o drawma

Mae ymarfer ystyriol o drawma yn meddwl gwybod bod plant wedi gallu cael profiadau anodd. Ac yn eu helpu mewn ffordd ddiogel, garedig a pharchus.

Ymweliad dirybudd

Ymweliad dirybudd ydy pan fydd gweithiwr yn ymweld heb ddweud wrth bobl ymlaen llaw. Mae'n helpu staff i weld sut mae plentyn yn gwneud